OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 361 (Cy. 113)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *10 Mawrth 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *15 Mawrth 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â dylunio a chodi adeiladau, ac mewn perthynas â gwasanaethau, ffitiadau a chyfarpar a ddarperir yn yr adeiladau hynny neu mewn cysylltiad â hwy.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a chan adrannau 1, 3, 8(6) a 34 o Ddeddf Adeiladu 1984 a pharagraffau 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi(**3**), sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**4**), ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu a'r cyrff eraill hynny yr ymddengys iddynt hwy sy'n cynrychioli'r buddiannau o dan sylw yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984(**5**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

(**1**) O.S. 2016/161.

(**2**) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**3**) 1984 p. 55. Diwygiwyd adran 1 gan adran 1 o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (p. 22) ("Deddf 2004"); diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2004 a chan adran 11 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 (p. 19); diwygiwyd paragraff 8 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2004 a chan adran 40 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29).

(**4**) Cafodd y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1, 3 a 34 o Ddeddf Adeiladu 1984 a pharagraffau 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019).

(**5**) 1984 p. 55. Mewnosodwyd is-adran (7) gan erthygl 1(2) o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019).